# DEDDF IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU) 2018

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 20: Eiddo a gyfeddir: digolledu*

79. Mae‘r adran hon yn darparu hawl i berson a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae meddiant wedi ei gymryd ohono o dan adran 17(1)(c) i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo‘r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni, caiff y llys orchymyn i‘r awdurdod lleol ddigolledu‘r ceisydd. Yr amgylchiadau yw bod eiddo wedi ei gymryd; nad oedd yn angenrheidiol cymryd yr eiddo i ddarganfod a oedd trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni; bod y ceisydd wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad; ac nad oedd y golled na’r difrod yn deillio o esgeulustod neu ddiffyg y ceisydd ei hun.